# Celf – Blwyddyn 9 Paentio RhDd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:**<br>AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol: **Bydd y myfyrwyr yn gallu** defnyddio pensil a phaent i ddangos tôn a lliw gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau i ddangos ffurf a gwead mewn darn o waith celf.<br>AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: **Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i ychwanegu gwead a thôn at eu gwaith pensil a phaent, sut i ddefnyddio cyfryngau fel paent i ddangos tôn ac ymarfer cymysgu lliwiau yn eu gwaith celf eu hunain.<br>AA3 Cofnodi Myfyriol: **Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o** sut y defnyddir llinellau, tôn a gwead i greu darluniau a phaentiadau. | | | **Termau Allweddol:**<br>Portread<br>Amlinelliad<br>Gwneud marciau / Gwead / Tôn / Ystod donyddol / Graddfa donyddol – O'r tywyllaf i'r goleuaf |
| **Wythnos 1&2 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: gallu defnyddio marciau, llinellau a chysgodi amrywiaeth o donau mewn pensil i greu astudiaeth o'r wyneb; llygaid, trwyn, ceg ac ati.**<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth o luniadu cywir trwy drafod a lluniadu hunanbortread:<br>Bydd y myfyrwyr yn dechrau lluniadu eu hunanbortread mewn pensil. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Ymarfer defnyddio llinellau, marciau a thôn gyda phensiliau HB, 2B a 4B.<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu lluniadu wynebau realistig.<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu rhannu eu ffotograff i fyny gyda grid yn barod i ddechrau eu hunanbortread. | **Gwaith Cartref**<br>Hunanbortread (drafft 1af.) Defnyddio drych neu ffotograff.<br>Gradd |
| **Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: defnyddio eu gwybodaeth o linellau a thôn wrth greu eu hunanbortread:**<br>Bydd y myfyrwyr yn creu hunanbortread arsylwadol, gan ganolbwyntio ar gyfrannedd a manylion ac ychwanegu tôn.<br>Gwahaniaethu: Caiff myfyrwyr sydd angen cymorth gyda'r dasg hon ddefnyddio blwch golau/papur carbon i ddargopïo amlinelliad, fodd bynnag, rhaid iddynt ychwanegu'r manylion a'r tôn eu hunain. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn deall sut i rannu eu ffotograff i fyny gyda grid ac ychwanegu tôn/cysgod i gwblhau eu hunanbortread. | ***Gwaith ychwanegol i ymestyn a herio:***<br>*Ymarfer lluniadu yn eich llyfr braslunio personol. Gallech roi cynnig ar luniadu mewn beiro neu 'fineliner', gan ddefnyddio'r dechneg gwneud marciau i ddangos tôn.* |
| **Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: gallu cymysgu ystod o donau gan ddefnyddio paent du a gwyn:**<br>**Paent - Tôn:** Bydd y myfyrwyr yn creu graddfa donyddol gyda phaent, trwy ychwanegu ychydig bach o baent du a gwyn.<br>Bydd y myfyrwyr yn dechrau paentio copi o'u portread ac yn ychwanegu tôn gyda phaent. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa dechnegau i'w defnyddio i greu tôn/cysgod gyda phaent. | ***Gwaith ychwanegol i ymestyn a herio:***<br>*Ymarfer sgiliau paentio yn eich llyfr braslunio personol.* |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: Cymhwyso eu gwybodaeth o dôn i'w hunanbortread:**<br>Bydd y myfyrwyr yn paentio copi o'u portread gan ychwanegu tôn/cysgodi.<br>Asesiad Crynodol: Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd.<br>Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso eu gwaith paentio. (Ffocws Llythrennedd: 9.YY1, 9.YS4, 9.YS1, 9.YI2, 9.YG4)<br>Gradd | Asesiad<br>ACD<br>/100 | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa dechnegau i'w defnyddio i greu tôn/cysgod gyda phaent.<br><br>Sgiliau cofnodi myfyriol, bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio iaith berthnasol i werthuso ac ymateb i waith a gwblhawyd. | |
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: gallu cymysgu ystod o liwiau eilaidd mewn amrywiaeth o arlliwiau gan ddefnyddio lliwiau cynradd:**<br>- Bydd y myfyrwyr yn archwilio lliw trwy baent, cymysgu lliwiau cynradd i greu ystod o liwiau eilaidd mewn gwahanol arlliwiau.<br>- Bydd y myfyrwyr yn archwilio lliw – cynradd, eilaidd, trydyddol, cyflenwol, cyferbyniol, poeth ac oer sy'n gysylltiedig ag emosiwn.<br>- Bydd y myfyrwyr yn dechrau paentio copi o'u portread, gan ychwanegu lliw. Cyflwyno gwaith **Francoise Nielly** yn barod ar gyfer y wers nesaf. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu paentio graddfeydd lliw i'w defnyddio yn eu hunanbortread lliw. | **Gwaith Cartref**<br>Ymateb i waith yr artist **Francoise Nielly**. Dilyn y daflen gymorth i wneud nodiadau ar gyfer trafodaeth. |
| **Wythnos 7 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol & Cofnodi Myfyriol: dangos eu dealltwriaeth o liw trwy drafod:** Ymateb i waith yr artist **Francoise Nielly**.<br>Bydd y myfyrwyr yn darllen ac yn cymharu enghreifftiau o ymatebion i waith artistiaid ac yn trafod pa un yw'r mwyaf effeithiol o ran cyflwyniad, ffont a defnydd o ddelweddau, gan ddod i gasgliad fel grŵp. (Ffocws Llythrennedd :9DYD6: gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl darn o destun.)<br>Bydd y myfyrwyr yn trafod gwaith yr artist **Francoise Nielly** (gwaith cartref i helpu), gwneud nodiadau ar Gyd-destun, Disgrifiad, Dadansoddiad, Dehongliad, Barn. Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu ymateb i waith **Francoise Nielly** gan ddefnyddio'r nodiadau. (Ffocws Llythrennedd: 9.YY1, 9.YS4, 9.YS1, 9.YI2, 9.YG4 ) | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn dangos defnydd cywir o strwythur brawddegau a geirfa wrth ysgrifennu, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion allweddol sy'n benodol i'r pwnc. | |

# Celf – Blwyddyn 9 Paentio RhDd

| Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu: | Termau Allweddol: |
|---|---|
| **AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol**: **Bydd y myfyrwyr yn gallu** defnyddio pensil, paent a phastel i ddangos tôn a lliw, gan ddefnyddio gwahanol dechnegau i ddangos ffurf 3D a gwead mewn darn o waith celf.<br>**AA1 Dealltwriaeth Feirniadol**: **Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i ddefnyddio paent i ddangos tôn ac ymarfer cymysgu yn eu gwaith celf eu hunain.<br>**AA3 Cofnodi Myfyriol**: **Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o sut mae llinell, tôn a gwead yn cael eu defnyddio i greu darn o waith celf effeithiol. | Lliw Cynradd<br>Lliw Eilaidd<br>Lliw Trydyddol<br>Lliwiau poeth/oer<br>Lliwiau cyflenwol, cyferbyniol<br>Lliwiau cydnaws |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: dysgu sut i gymhwyso eu gwybodaeth o liw i'w hunanbortread:**<br>Bydd y myfyrwyr yn paentio copi o'u portread er mwyn ychwanegu lliw ato.<br>Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso eu gwaith paentio. (Ffocws llythrennedd: 9.YY1, 9.YS4, 9.YS1, 9YI2, 9.YG4) | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth o liwiau cynradd, eilaidd, cyflenwol/cyferbyniol, poeth ac oer yn eu portread. | |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: yn gallu dangos eu dealltwriaeth o baentio portreadau trwy drafod: Ymateb i waith yr artist Shani Rhys James**.<br>Bydd myfyrwyr ddarllen a chymharu enghreifftiau o ymatebion i waith artist ac yn trafod pa un yw'r mwyaf effeithiol o ran cyflwyniad, ffont, a delweddau a ddefnyddiwyd, gan ddod i gasgliad fel grŵp. (Ffocws Llythrennedd: 7.DYD6: gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun. 9.YM1, 9.YS4, 9.YS1, 9.YI2, 9.YG4) | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu trafod ac ysgrifennu am waith Shani Rhys James gan ddefnyddio **geirfa artistig**, gan wneud sylwadau ar **gyd-destun, disgrifiad, dadansoddiad, dehongliad a barn** | |
| **Wythnosau 3 a 4 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: dysgu sut i gymhwyso eu gwybodaeth o dôn a lliw i'w hunanbortread:**<br>Bydd myfyrwyr yn archwilio'r broses o gymysgu arlliwiau croen, gan greu ystod o donau.<br>Bydd y myfyrwyr yn paentio copi o'u portread er mwyn ychwanegu arlliwiau croen ato. Bydd myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth o liw a thôn.<br>Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso eu gwaith paentio.<br>Gradd<br>AC<br>Asesiad Crynodol: Bydd myfyrwyr yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd myfyrwyr yn gallu paentio eu portreadau i ddangos **tôn** a **gwahanol arlliwiau**, gan sicrhau bod nodweddion y wyneb yn edrych yn **3D**. | **Gwaith Cartref**<br>Tynnu llun o anifail. Ychwanegu gwead a thôn.<br>Gradd |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: dysgu sut i gymhwyso eu gwybodaeth o linell, tôn a gwead wrth greu eu portread hanner pen person/hanner pen anifail:**<br>Bydd y myfyrwyr yn creu portread hanner pen person/hanner pen anifail, gan edrych yn ofalus ar gyfrannedd a manylion ac ychwanegu gwead a thôn. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am **gyfrannedd** a **thôn** i greu canlyniad 1/2 portread 1/2 anifail. | |
| **Wythnosau 6 a 7 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: dysgu sut i gymhwyso eu gwybodaeth o dôn a lliw i'w portread hanner person/hanner anifail:**<br>Bydd y myfyrwyr yn lliwio copi o'u portread hanner person/hanner anifail, gan ychwanegu gwead a thôn. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am **liw** a **gwead** i gwblhau eu canlyniad 1/2 portread 1/2 anifail. | |

# Celf – Blwyddyn 9 Cerameg RhDd

Ysgol Brynhyfryd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:**<br>**AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol**: **Bydd y myfyrwyr yn gallu** adeiladu ymhellach ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gerameg gan, ddatblygu eu sgiliau a'u technegau o ran trin clai, yn enwedig y **dechneg SLABIO.**<br>**AA1 Dealltwriaeth Feirniadol**: **Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i** ddatblygu eu sgiliau ymchwilio gweledol ac ysgrifenedig er mwyn cynhyrchu 2 fwgwd ceramig sy'n ymateb i 2 wahanol genre.<br>**AA3 Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o sut i ddadansoddi gwaith artist ac ymateb iddo; mae masgiau Romuald Hazoume yn cyfeirio at sefyllfa wleidyddol ac economaidd Gweriniaeth Benin. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut i gynnwys y wybodaeth hon yn eu hymatebion / disgrifiadau o waith celf ac yn ymateb yn annibynnol drwy'r tasgau gwaith cartref a osodir. | | | **Termau Allweddol:**<br>Cerameg, clai, odyn, tanio, slip, gwydredd, cerfwedd uchel, cerfwedd isel, cerflun, gwead, patrwm, masgiau Slab, masgiau Affricanaidd, Masgiau Diwrnod y Meirw Mecsico, masgiau o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu, Romuald Hazoume, economi wleidyddol Gweriniaeth Benin, neges gymdeithasol, symbolaidd, David. M. Cook |
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br>FfLlRh: 9.RS5a, 9.RC6, 9.WL2, 9.WG4 – Darllen a deall ac Ysgrifennu'n gywir; Defnydd o eirfa/sillafu.<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: defnyddio sgiliau darllen i ymchwilio ac ymateb i wybodaeth. Bydd hyn yn arwain at gynllun ar gyfer eu canlyniad cerameg cyntaf.**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn dysgu o leiaf 6 ffaith am y genre 'Mygydau Affricanaidd'.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn gallu nodi'r ffeithiau hyn ac ymateb i bob un gyda chynllun unigol ar gyfer eu canlyniad ceramig. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>1. Disgrifio o leiaf 6 cyfeiriad symbolaidd sydd i'w gweld mewn mygydau Affricanaidd/diwylliant Affricanaidd.<br>2. Egluro sut y bydd y ffeithiau hyn yn effeithio ac yn dylanwadu ar eich gwaith eich hun. | **Gwaith Cartref**<br>Casglu 6 delwedd o fygydau Affricanaidd sydd yn edrych yn ddeniadol/diddorol i chi. Ysgrifennwch baragraff disgrifiadol ar 2. |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br>FfLlRh: 9.WL2 Defnyddio geirfa ddisgrifiadol yn ymwneud â chelf i labelu GWEAD a PHATRWM/SIÂP yn eu dyluniad.<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: gallu ymateb yn weledol ac yn bersonol i'r wybodaeth a gasglwyd am fygydau Affricanaidd a chreu mwgwd.**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn ystyried yr holl ymatebion i'r ffeithiau yr ymchwiliwyd iddynt ac yn dechrau dylunio eu mygydau Affricanaidd.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn ystyried sut mae eu mygydau yn ymateb i'w mapiau meddwl ac yn labelu cyfeiriadau symbolaidd. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>1. Ymateb yn weledol (dylunio) i gynlluniau ysgrifenedig o'r ymchwil a wnaed.<br>2.Disgrifio, gan ddefnyddio iaith artistig, y patrwm, siâp a'r gwead y byddwch yn ei weld yn eich canlyniad ceramig. | |
| **Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD. Gwneud mwgwd ceramig wedi'i ysbrydoli gan y mygydau Affricanaidd.**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD1. Gwneud eu mygydau ceramig wedi'u hysbrydoli gan fygydau Affricanaidd.<br>2.Bydd y myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn gosod targedau er mwyn gwella. Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa sgiliau y mae angen iddynt eu gwella wrth wneud eu penglogau 'Diwrnod y Meirw' Mecsico. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>1.ACD:Bydd y myfyrwyr yn defnyddio'r dechneg SLABIO i wneud penglog ceramig 3D<br>2.Bydd y myfyrwyr yn sicrhau eu bod yn gosod targed personol ar gyfer y canlyniad cerameg nesaf. | |
| **Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu:**<br>FfLlRh: 9.OS2, 9.OL1, 9.OL3, 9.WL2, 9.WM5, 9.RC3 – Sgiliau siarad a gwrando, ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa, ail-ddrafftio/ail-olygu gwaith a darllen a deall: Sut mae'r dystiolaeth yn cefnogi pwyntiau yn y testun.<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: gallu datblygu eu sgiliau llythrennedd a'u dealltwriaeth o sut i ymateb i waith artist.**<br>Bydd y myfyrwyr yn ymateb i wybodaeth ysgrifenedig a gweledol ac yn ysgrifennu/cynllunio ymateb disgrifiadol, deongliadol a dadansoddol i waith artist.<br>1.Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i waith Romuald Hazoume, ac yn dangos dealltwriaeth o'r negeseuon gwleidyddol ac economaidd y gall y mygydau cyfoes hyn eu cynrychioli, yn enwedig y sylwebaeth gymdeithasol ar Weriniaeth Benin. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>1.Bydd y myfyrwyr yn cwblhau cynllun ysgrifenedig (ymateb i waith artist) i sicrhau eu bod yn deall y syniadau sydd wrth wraidd gwaith Hazoume a'u bod yn gallu ysgrifennu am fwriadau artistiaid. | **Gwaith Cartref**<br>Treulio o leiaf 2 awr yn gwneud eich mwgwd eich hun o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Bydd yn cynnwys / cyfeirio at neges gymdeithasol.<br>Gradd Gwaith Cartref: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu**:<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: deall ac yn datblygu eu gallu yn y 3 maen prawf llwyddiant sydd eu hangen wrth baentio pob canlyniad ceramig**<br>1. Paentio'r mygydau ceramig Affricanaidd. Bydd y myfyrwyr yn dangos eu gallu i gymysgu lliwiau eilaidd a defnyddio tôn wrth baentio gwaith ceramig.<br>Asesiad<br>2. Bydd y myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn gosod targedau er mwyn gwella. Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa sgiliau y mae angen iddynt eu gwella wrth wneud eu penglogau 'Diwrnod y Meirw' Mecsico. | Gradd<br>ACD | **Meini prawf llwyddiant:**<br>1. **AC:** Bydd y myfyrwyr yn defnyddio lliwiau sylfaenol i gymysgu lliwiau eilaidd ac yn dangos eu gallu i baentio gan ddefnyddio ystod donyddol rhwng y lliwiau hyn. | |
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu:**<br>FfLlRh: 9.RC3, 9.WM5, 9.WM1, 9.WS4, 9.WG4, RA6 – Darllen a deall, ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa, ail-ddrafftio/ail-olygu, sillafu geiriau allweddol, paragraffu a strwythur. Cymharu enghreifftiau i ddeall meini prawf llwyddiant.<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: gallu datblygu eu sgiliau llythrennedd a'u dealltwriaeth o sut i ymateb i waith artist.**<br>Ymateb i wybodaeth ysgrifenedig a gweledol er mwyn ysgrifennu ymateb disgrifiadol, deongliadol a dadansoddol i waith artist:<br>YSGRIFENNU ESTYNEDIG<br>1. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwaith ymchwil Romuald Hazoume i gwblhau darn o waith ysgrifennu estynedig i ddangos eu dealltwriaeth o'r negeseuon gwleidyddol ac economaidd y gall y mygydau cyfoes hyn eu cynrychioli, yn enwedig y sylwebaeth gymdeithasol ar Weriniaeth Benin.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ac yn gwneud mwgwd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, wedi'i ysbrydoli gan waith Romuald Hazoume (Prosiect Gwaith Cartref). | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Bydd y myfyrwyr yn cwblhau darn o waith ysgrifennu estynedig ac yn cynnwys disgrifiad/ dadansoddiad/dehongliad a'u barn am waith Hazoume. | |
| **RhDd5 – Wythnos 7 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Cofnodi Myfyriol: gallu datblygu sgiliau lluniadu a fydd yn ysbrydoli datblygiad y modiwl cerameg nesaf**<br>1.Lluniadu arsylwadol, blodau a phenglogau, fel paratoad ar gyfer RhDd2 'Diwrnod y Meirw'. Bydd y myfyrwyr yn dangos defnydd o'r ystod donyddol lawn. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Bydd y myfyrwyr yn cwblhau lluniadu arsylwadol. | |

NID DYSG HEB FOES

Ysgol Brynhyfryd

# Celf – Blwyddyn 9 Cerameg RhDd

| | |
|---|---|
| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu**<br>**AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol**: **Bydd y myfyrwyr yn gallu** adeiladu ymhellach ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gerameg gan, ddatblygu eu sgiliau a'u technegau o ran trin clai, yn enwedig y **dechneg SLABIO.**<br>**AA1 Dealltwriaeth Feirniadol**: **Bydd myfyrwyr yn gwybod** sut i ddatblygu eu sgiliau ymchwil gweledol ac ysgrifenedig i gynhyrchu mygydau cerameg sy'n ymateb i 'Ddiwrnod y Meirw'<br>**AA3 Cofnodi Myfyriol**: **Bydd myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o waith David M Cook. Bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gynnwys yr wybodaeth hon yn eu hymateb i/disgrifiadau o waith celf ac yn ymateb yn annibynnol trwy'r tasgau gwaith cartref. | **Termau Allweddol:**<br>Cerameg, clai, tanio yn yr odyn, slip, gwydro, cerfwedd uchel, cerfwedd isel, cerflun, gweadedd, patrwm, mygydau SLABIO, mygydau Diwrnod y Meirw Mecsico, mygydau wedi'u hailgylchu, Romuald David. M. Cook |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br>*FfLlRh: 9.RS5a, 9.RC6, 9.WL2 – Darllen a deall, ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa.*<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: defnyddio sgiliau darllen i ymchwilio ac ymateb i wybodaeth. Bydd hyn yn arwain at gynllun ar gyfer eu cynnyrch cerameg cyntaf.**<br>1. Bydd myfyrwyr yn dysgu o leiaf 6 ffaith/nodwedd dylunio o ran y *genre* penglogau Diwrnod y Meirw Mecsico<br>2. Bydd myfyrwyr yn gallu adnabod y ffeithiau/nodweddion dylunio hyn ac yn ymateb i bob un gyda chynllun unigol ar gyfer eu canlyniad cerameg | | **Asesiad Gwrthrychol**<br>1. Adnabod o leiaf 6 gwahanol gyfeiriad symbolaidd at Ddiwrnod y Meirw Mecsico.<br>2. Esbonio sut y bydd y ffeithiau hyn yn dylanwadu ac yn ysbrydoli eich creadigaeth eich hun. | **Gwaith Cartref**<br>1. Casglu 6 delwedd o benglogau Diwrnod y Meirw sy'n ddiddorol/apelio atoch chi o ran estheteg. Ysgrifennu paragraff disgrifiadol am ddau ohonynt. |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Cofnodi Myfyriol: gallu ymateb yn weledol ac yn bersonol i'r wybodaeth a gasglwyd er mwyn creu mwgwd.**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn dylunio eu penglogau Diwrnod y Meirw Mecsico eu hunain, gan gymryd ysbrydoliaeth o'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer y map meddwl. | | **Asesiad Gwrthrychol**<br>**1.** Gwaith lluniadu cymesur sy'n dangos yr ystod donyddol, nodweddion wedi'u hysbrydoli gan Ddiwrnod y Meirw ym Mecsico a chyfraneddau cywir | |
| **Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD. Gwneud mwgwd ceramig wedi'i ysbrydoli gan Ddiwrnod y Meirw Mecsico.**<br>1. Bydd myfyrwyr yn cymhwyso a dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD1. Gwneud eu masg cerameg wedi'i ysbrydoli gan Ddiwrnod y Meirw Mecsico.<br>2. Bydd myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn pennu targedau er mwyn gwella. | | **Asesiad Gwrthrychol**<br>1. **ACD1**: Bydd y myfyrwyr yn defnyddio'r dechneg SLABIO i wneud penglog cerameg 3D.<br>2. Y myfyrwyr i sicrhau eu bod yn gosod targed i'w hunain ar gyfer y canlyniad cerameg nesaf. | |
| **Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu**:<br>*FfLlRh: 9.WS1, 9.WS4, 9.WL2, 9.WG4 – Ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa, defnydd cywir o baragraffau a strwythurau, sillafu geiriau allweddol.*<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: gallu ymateb i wybodaeth ysgrifenedig a gweledol ac ysgrifennu ymateb disgrifiadol, deongliadol a dadansoddol i waith artist: YSGRIFENNU ESTYNEDIG**<br>David. M. Cook**:** 1.Bydd myfyrwyr yn defnyddio eu gwaith ymchwil i waith David. M. Cook i gwblhau darn ysgrifennu estynedig, gan ddangos eu dealltwriaeth o ofynion ymateb i artist: disgrifio / dadansoddi / dehongli / barn. | Asesiad<br>Gradd | **Asesiad Gwrthrychol:**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn cwblhau darn ysgrifennu estynedig, yn cynnwys disgrifiad / dadansoddiad / dehongliad a barn am waith David M. Cook. | **Gwaith Cartref**<br>Myfyrwyr i gwblhau tasg lluniadu arsylwadol - bywyd llonydd. Dylai'r myfyrwyr ddangos yr ystod donyddol lawn yn eu gwaith.<br>Gradd |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol & Chyflwyniad Personol: deall ac yn datblygu eu gallu yn y 3 maen prawf llwyddiant y mae angen eu bodloni wrth baentio pob canlyniad ceramig**<br>1. Paentio'r mygydau cerameg Diwrnod y Meirw Mecsico a grëwyd. Bydd y myfyrwyr yn dangos eu gallu i gymysgu lliwiau eilaidd a defnyddio tôn wrth baentio gwaith cerameg.<br>2. Bydd myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn pennu targedau er mwyn gwella. Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa sgiliau fydd angen eu gwella wrth symud i'r modiwl nesaf. | Asesiad<br>AC<br>Gradd | **Asesiad Gwrthrychol:**<br>1. Bydd myfyrwyr yn defnyddio lliwiau sylfaenol i gymysgu lliwiau eilaidd ac yn dangos eu gallu i baentio gan ddefnyddio amrediad tôn rhwng y lliwiau hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu:**<br>*FfLlRh: 9.WL2, 9.WG4, RA6 - Ysgrifennu'n gywir: Defnydd o eirfa a sillafu geiriau ac ymadroddion pwnc-benodol. Cymharu enghreifftiau i ddeall meini prawf llwyddiant.*<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Dealltwriaeth Feirniadol: gallu cymharu a chyferbynnu eu canlyniadau gyda gwaith yr artistiaid y maent wedi eu hastudio yn y modiwl hwn.**<br>1. Gwerthuso a chymharu eu mygydau hwy gyda gwaith Romuald Hazoume, mygydau traddodiadol Affricanaidd a gwaith David. M. Cook. | | **Asesiad Gwrthrychol:**<br>1.Defnyddio iaith a geirfa artistig i gymharu a chyferbynnu canlyniadau, gan ddefnyddio Diagram Venn i'w helpu i strwythuro'r gwaith. | |
| **Wythnos 7 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Cofnodi Myfyriol: gallu datblygu sgiliau lluniadu a fydd yn ysbrydoli datblygiad y modiwl Celf a Dylunio nesaf**<br>1.myfyrwyr i gwblhau tasg lluniadu arsylwadol bywyd llonydd. Dylai'r myfyrwyr ddangos yr amrediad tôn cyflawn yn eu gwaith. | | **Asesiad Gwrthrychol:**<br>1.Myfyrwyr i gwblhau tasg lluniadu arsylwadol - bywyd llonydd. Y myfyrwyr i ddangos yr ystod donyddol lawn yn eu gwaith | |

# Celf – Blwyddyn 9 – Print RhDd

| | |
|---|---|
| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:**<br>**Sgiliau: Bydd y myfyrwyr yn gallu** defnyddio persbectif un pwynt i ddylunio llythrennau graffiti 3D.<br>**Gwybodaeth: Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i ddefnyddio technegau Photoshop i greu portread a fydd yn gallu cael ei ddefnyddio i greu print gyda stensil.<br>**Dealltwriaeth: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o waith yr Artist Stryd cyfoes, Banksy. Byddant yn dysgu sut i ddadansoddi gwaith artist gan edrych yn benodol ar negeseuon gwleidyddol, cymdeithas a moesol yn y gwaith. | **Termau Allweddol:**<br>Portread<br>Stensil<br>Gwneud marciau/<br>Tôn Gwead<br>Persbectif un pwynt<br>Banksy<br>Graffiti<br>Celf gymdeithasol / fandaliaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i ymateb i waith celf sy'n cynnwys neges gymdeithasol**: Cyflwyniad i waith Banksy. Bydd y myfyrwyr yn trafod gwaith Banksy, gan edrych yn ofalus ar negeseuon cymdeithasol, gwleidyddol a moesol. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn dadlau ac yn trafod y neges gymdeithasol yng ngwaith Banksy, gan ddefnyddio strwythur ysgrifennu ac iaith artistig i ddehongli a dadansoddi ei waith. | **Gwaith Cartref**<br>Myfyrwyr i luniadu portread **stensil** - portread o berson enwog, aelod o'r teulu, ffrind neu hunanbortread.<br>Gradd |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am bersbectif un pwynt i greu 2 gwahanol lythyren graffiti/3D.**<br>Gan edrych ar wahanol ddyluniadau, bydd y myfyrwyr yn lluniadu 3 llythyren wahanol ac yn eu hanodi a'u hadolygu er mwyn paratoi llabed enw *(name tag)* a fydd yn cael ei gynnwys yn eu canlyniad terfynol ar ddiwedd y tymor. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Defnyddio persbectif un pwynt i ddylunio llythyren 3D | |
| **Wythnosau 3 a 4- Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am bersbectif un pwynt i greu llabed enw 3D mewn arddull graffiti.**<br>Bydd y myfyrwyr yn dewis eu dyluniad cryfaf ac yn dylunio eu llabed enw terfynol. Byddant yn defnyddio pinnau ffelt 'posca' a 'sharpies' i greu'r effaith lliw a thôn y maent yn dymuno ei chreu.<br>Gradd<br>AC<br>/100 | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Defnyddio persbectif un pwynt i ddylunio llabed enw graffiti 3D.<br>Rhaid i'r lliwiau ddangos tôn a gweadau arddull 'graffiti'/gwneud marciau. | |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn dysgu technegau Photoshop er mwyn 'blocio' eu portread, gan greu canllaw clir ar gyfer y canlyniad stensil.**<br>(Ffocws Llythrennedd Digidol) Bydd y myfyrwyr yn gwella eu sgiliau llythrennedd digidol trwy gwblhau portread wedi'i olygu ar Photoshop y gallant ei ddefnyddio i stensilio a phrintio. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn deall sut i ddefnyddio'r technegau golygu 'ENHANCE' a 'FILTER' ar Photoshop i greu portread 'bloc' cywir y gellir creu stensil ag ef. | |
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn dysgu'r technegau sydd eu hangen i dorri stensil o'u portread**.<br>Gan ddefnyddio asetad, pinnau ffelt 'sharpie', cyllell a bwrdd torri, bydd y myfyrwyr yn cadw at reolau iechyd a diogelwch llym wrth gwblhau eu portread stensil. | | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>Defnyddio 'sharpie' i farcio'r rhannau positif o'u portread,<br>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio cyllyll crefft i wneud stensil portread cyflawn. | |

# Celf - Blwyddyn 9 Photoshop RhDd

Ysgol Brynhyfryd

| Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu: | Termau Allweddol: |
|---|---|
| **AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r rhaglen Microsoft Office gywir i gofnodi datblygiad a chynnydd yn Photoshop a deall sut i newid maint, golygu a thrin delwedd ddigidol yn Photoshop.**<br>**AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i arbrofi gyda gwahanol offer golygu yn Adobe Photoshop i greu portread haniaethol.<br>**AA3 Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o wahanol brosesau trin digidol ac yn cwblhau dogfen Publisher wedi'i hanodi i gefnogi eu canlyniadau.** | Adobe Photoshop<br>Microsoft Publisher<br>Delwedd Ddigidol<br>Golygu a thrin<br>Aflunio<br>Portread<br>Troshaenu<br>Offer 'Magic wand'/'quick selection'<br>Offer 'Marquee' |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau <u>Gwneud Creadigol a Chofnodi Myfyriol</u> trwy weithio mewn parau i gymryd ffotograffau o wahanol rannau o'u hwynebau**.<br>1. Bydd y myfyrwyr yn deall sut i ddefnyddio camera a chymryd ffotograff gan ystyried ffocws, golau a chyfansoddiad.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn llwytho delweddau ar y rhwydwaith ac yn arbed eu ffotograffau ar y rhwydwaith ar gyfer y wers nesaf. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn cymryd o leiaf 6 o ffotograffau portread, gan sicrhau eu bod yn defnyddio gwahanol onglau ac yn cynnwys gwahanol rannau o'r wyneb. | **Gwaith Cartref**<br>Gwneud creadigol: Bydd y myfyrwyr yn cwblhau portread haniaethol. Byddant yn treulio o leiaf 2 awr yn creu portread darniog a swrrealaidd. |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn deall sut i ddefnyddio <u>Dealltwriaeth Feirniadol:</u> cymharu eu gwaith â gwaith artist a gwerthuso.**<br>Myfyrwyr i gwblhau ymateb ysgrifenedig i waith artist. Bydd hyn yn caniatáu i'r myfyrwyr fyfyrio ar sut mae eu gwaith digidol yn cymharu â gwaith yr artist Picasso, trafod pethau sydd yn debyg/gwahanol.(Ffocws llythrennedd: 9.WL2, 9.WG4)<br>Bydd y myfyrwyr yn gosod targedau unigol ac yn asesu gwaith cymheiriaid, gan ddangos dealltwriaeth o sut y gellid ei ddatblygu ymhellach. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn cwblhau ymateb i waith artist gan ddefnyddio geiriau allweddol ac yn sicrhau eu bod cymharu gwaith artistiaid. | Gradd |
| **Wythnos 3 a 4 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu <u>Dealltwriaeth Feirniadol, sgiliau Gwneud Creadigol a Chofnodi Myfyriol:</u>**<br>Ffocws Digidol: 3.2 Cynhyrchu: Creu<br>1. Bydd y myfyrwyr yn golygu dogfen newydd yn Photoshop; byddant yn gwybod lle i ddod o hyd i'r offeryn **'magic wand'** a'r offeryn **'quick selection'** a sut i ARBED gwaith yn gywir ac ym mha fformat.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio Publisher i gopïo cipluniau o'u gwaith trin digidol yn Photoshop ac yn gallu defnyddio'r derminoleg a'r eirfa gywir wrth anodi eu proses systematig. | | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn cynhyrchu cyfres o bortreadau haniaethol digidol Byddant yn defnyddio'r delweddau JPEG o wythnos 1 i haenu / newid maint / defnyddio effeithiau hidlo i ddatblygu eu gwaith. | |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br>**Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu sgiliau <u>Gwneud Creadigol</u>**:<br>Ffocws Digidol: 3.2,3.3 Cynhyrchu: Creu<br>1. Bydd y myfyrwyr yn cwblhau canlyniad digidol terfynol trwy gyfuno'r sgiliau trin digidol a ddysgwyd wrth ddefnyddio Photoshop.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio Publisher i gopïo cipluniau o'u gwaith trin digidol yn Photoshop ac yn gallu defnyddio'r derminoleg a'r eirfa gywir wrth anodi eu proses systematig. | Gradd<br><br>AC<br>/100 | **Meini prawf llwyddiant**<br>Bydd y myfyrwyr yn gallu cwblhau delwedd ddigidol derfynol gan ddefnyddio'r offer **Marquee/quick selection/magic wand** i symud/gogwyddo(tilt) /newid maint a haenu adrannau a sicrhau eu bod yn creu o leiaf 4 delwedd wahanol wedi'u golygu yn y cyfansoddiad. | |
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu**:<br>**Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau <u>Cofnodi Myfyriol</u> trwy gymharu a chyferbynnu eu canlyniadau gyda gwaith yr artistiaid a astudiwyd yn ystod y modiwl hwn**. (Ffocws llythrennedd; 9.YI2, 9YG4 ysgrifennu'n gywir)<br>1. Gwerthuso a chymharu canlyniadau ac ymateb i dargedau a osodwyd gan yr Athro.<br>2. Cwblhau diagram Venn i gymharu a chyferbynnu tri chanlyniad; eich gwaith eich hun / / Picasso. | | **Meini prawf llwyddiant:**<br>Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio terminoleg gywir a geiriau allweddol wrth gymharu artistiaid a gwerthuso gwaith. | |